# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb 18 Ionawr 2001

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau )**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid a Chymunedau

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw strwythur ffïoedd penseiri Adeilad newydd y Cynulliad wedi'i newid i leihau'r berthynas rhwng y ffi sylfaenol a chost derfynol yr adeiladu fel yr argymhellwyd yn Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. **(WAQ9131)**

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Os nad oes cytundeb wedi'i wneud gyda Grosvenor Waterside ynghylch prynu'r tir ychwanegol sydd ei angen ar Adeilad newydd y Cynulliad, beth yw'r problemau a phryd dechreuwyd y trafodaethau i'w datrys. **(WAQ9132)**

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** O faint y mae ffïoedd penseiri Adeilad newydd y Cynulliad wedi codi'n uwch na'r £1.98 miliwn a nodwyd yn yr amcangyfrif gwreiddiol. **(WAQ9133)**

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A ystyriwyd prynu adeilad y Pierhead yn hytrach na'i rentu. **(WAQ9134)**

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** O ba ganran y mae costau rhedeg Ty Crucywel ac Adeilad y Pierhead wedi codi'n uwch na'r amcangyfrif a wnaed cyn ethol y Cynulliad Cenedlaethol. **(WAQ9135)**

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r trefniadau ar gyfer cyflogi maint-fesurydd ar gyfer prosiect Adeilad newydd y Cynulliad wedi'u newid fel yr argymhellwyd yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. **(WAQ9136)**